Mae'n amser paratoi ar gyfer y **gyfraith newydd** yng Nghymru ar gyfer tyllu personol...

It's time to prepare for the **new law** in Wales on intimate piercing...

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## I gael rhagor o wybodaeth o 1 Chwefror 2018:
## Ewch i: www.llyw.cymru/deddfiechydycyhoedd
## Neu cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol

---

## For more information from 1 February 2018:
## Visit: www.gov.wales/publichealthact
## Or: contact your Local Authority

---

Os nad oes modd ei ddosbarthu, dychweler i: Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Caerdydd CF10 3NQ

If undelivered return to Public Health Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

**Posteri sy'n tynnu sylw at y gyfraith newydd:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio poster A4 i dynnu sylw at y ffaith bod y gyfraith newydd hon ar waith yng Nghymru, a chaiff y poster ei anfon at bob busnes sy'n gweithio ym maes tyllu'r corff ym mis Ionawr 2018. Rydym yn annog ymarferwyr a busnesau i arddangos y poster yn eu gweithle i roi gwybod am y gyfraith newydd hon i'w cwsmeriaid. Cewch lawrlwytho rhagor o gopïau o'r poster (o 1 Chwefror): www.llyw.cymru/deddfiechydycyhoedd

**Posters highlighting the new law:**

The Welsh Government has produced an A4 poster to highlight the introduction of this new law in Wales, and this will be distributed in January 2018 to all piercing businesses across Wales. Practitioners and businesses are encouraged to display the poster within their piercing premises to help convey the message about this new law. Further copies of this poster can be downloaded (from 1 February 2018): www.gov.wales/publichealthact



# TYLLU PERSONOL

**Dyma wybodaeth bwysig gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyfraith newydd a fydd yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yng Nghymru.**

**Y newidiadau o 1 Chwefror 2018:**

- Bydd yn anghyfreithlon rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yng Nghymru.
- Bydd hefyd yn drosedd gwneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff unrhyw un o dan 18 oed yng Nghymru.

**Y gyfraith:**

Ar ddydd Iau 1 Chwefror 2018, bydd y darpariaethau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, yn dod i rym. Bydd y darpariaethau hyn yn golygu y bydd yn drosedd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff unrhyw un o dan 18 oed yng Nghymru, neu i drefnu i wneud hynny.

**Pam cyflwyno'r newidiadau hyn:**

Y nod yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niweidio'u hiechyd, fel sy'n gallu digwydd ar ôl cael twll mewn rhan bersonol o'r corff, a hefyd osgoi amgylchiadau lle gallai plant a phobl ifanc gael eu rhoi mewn sefyllfa lle gallent fod yn agored i niwed.

**Gorfodi'r gyfraith:**

Swyddogion Gorfodi Awdurdodau Lleol, ar y cyd â'r Heddlu, fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ymarferwyr a'r busnesau perthnasol yn cydymffurfio â'r gyfraith newydd hon.

**Canllawiau a chymorth i ymarferwyr a busnesau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dogfen ganllaw ddwyieithog i helpu ymarferwyr a busnesau yn y maes i ddeall gofynion y gyfraith newydd, a chaiff y ddogfen hon ei dosbarthu ym mis Ionawr 2018. Hefyd, bydd eich awdurdod lleol yn gallu rhoi cyngor a chymorth pellach ichi ynghylch gofynion y gyfraith newydd.

**Cewch lawrlwytho rhagor o gopïau o'r ddogfen ganllaw (o fis Chwefror): www.llyw.cymru/deddfiechydycyhoedd**

# INTIMATE PIERCING

**Here is important information from the Welsh Government about a new law that will prohibit the intimate piercing of children and young people under the age of 18 in Wales**

**The changes from 1 February 2018:**

- The intimate piercing of children and young people under the age of 18 will be prohibited in Wales.
- It will also be an offence to make arrangements to perform an intimate piercing on anyone under the age of 18 in Wales.

**The law:**

On Thursday 1 February 2018, the Intimate Piercing provisions within the Public Health (Wales) Act 2017 will be coming into force. These provisions will make it an offence to intimately pierce, or make arrangements to intimately pierce, anyone under the age of 18 in Wales.

**Why introduce the change:**

This is being introduced to protect children and young people from the potential health harms which can be caused by an intimate piercing, and to avoid circumstances where children and young people are placed in a potentially vulnerable situation.

**Enforcement:**

It will be for Local Authority Enforcement Officers, in conjunction with the Police, to make sure the law on intimate piercing is being followed by piercing practitioners and businesses in Wales.

**Guidance and assistance for piercing practitioners / businesses:**

The Welsh Government has developed a bilingual guidance document to assist piercing practitioners/businesses understand the requirements of the new law, and this will be distributed in January 2018. Additionally, your local authority will be able to provide you with further advice and assistance on the requirements of this new law.

**Further copies of the guidance document can be downloaded (from 1 February 2018): www.gov.wales/publichealthact**

W33830 © Hawlfraint y Goron / Crown Copyright 2017